



# Polisi Gwrth fwlian

Mae'r Corff Ilywodraethu wedi mabwysiadu'r Polisi yn Erbyn bwlio er mwyn bodloni gofynion Deddf Diogelu Data, 1998.

Caiff y polisi hwn ei adolygu pan fydd unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud gan yr Awdurdod Lleol.

Mae'r polisi wedi ei gymeradwyo ac argymhellwyd ei fabwysiadu gan y Corff Ilywodraethol yn eu cyfarfod

Arwyddwyd \_\_\_\_\_  
**Cadeirydd y Llywodraethwyr**

Dyddiad:

Diweddarwyd: Mawrth 2018

# YSGOL GYFUN GARTH OLWG

---

## POLISI'R YSGOL YN ERBYN BWLIO:

### Meithrin Perthnasoedd ac Arferion Cadarnhaol

- ❖ Rydym ni yn Ysgol Gyfun Garth Olwg yn credu bod gan bob person ifanc yr hawl i gael ei drin â pharch a dealltwriaeth Mae ymddygiad sy'n tanseilio'r egwyddorion hyn yn gwbl annerbyniol.
- ❖ Mae'r ysgol yn ymrwymedig i roi proffil uchel i ymgyrchu yn erbyn bwlio a hyrwyddo agweddau cymdeithasol iach.
- ❖ Mae gan bob disgybl, ffrind neu riant hawl i rannu pryderon; ac mae dyletswydd ar bob athro i wrando a gweithredu.
- ❖ Defnyddir system fugeiliol a chwricwlwm yr ysgol gyda'i gilydd i addysgu disgyblion a chreu hinsawdd lle mae'n briodol dweud wrth athro am eich pryderon neu am bryderon rhywun arall.
- ❖ Mae gweithdrefn glir wedi'i phennu ar gyfer delio ag achosion o fwlio sy'n hysbys i ddisgyblion, rhieni a staff.
- ❖ Crëir amodau ar gampws yr ysgol sy'n hyrwyddo agweddau iach ac sy'n amddifadu'r bwlio o lefydd neilltuedig i guddio.

## SUT Y CAIFF BWLIO EI DDIFFINIO

*(Rhan o Bolisi Gwrth-fwlio a chanllawiau i ysgolion 2017 RhCT)*

- Mae bwlio yn fater cymhleth y gellir ei ddiffinio fel dymuniad bwriadol, parhaus ac ymwybodol i niweidio, bygwth neu godi ofn.
- Mae'n ailadroddus ac yn digwydd dros gyfnod o amser.
- Gwelir bwlio mewn sawl ffurf. Gall fod yn
  - gorfforol
  - hiliol
  - geiriol
  - homoffobig
  - lafar
  - emosiynol
  - seibrfwlio
  - rhywiol.
  - anabledd
- Mae bwlio yn achos **bwriadol** o gam-drin pŵer.

**Nid yw pob math o ymddygiad ymosodol yn fwlio. Mae cyfrifoldeb ar oedolion i esbonio'n ofalus y gwahaniaeth rhwng bwlio ac achosion ynysig ond anffodus o ran ymddygiad ymosodol a allai fod yn ddigwyddiad untro.**

Defnyddia'r ysgol ddogfennau perthnasol er mwyn trafod hyn yn addas gyda disgyblion.

## CYNLLUN GWEITHREDU

Er mwyn i'r polisi fod yn rhan o fywyd yr ysgol, rhaid sefydlu patrymau ymateb.

1. Creu hinsawdd gyffredinol yn seiliedig ar egwyddion Ar y MArC, lle mae cydweithredu, cydweithio a pharch at eich gilydd yn flaenoriaeth drwy roi sylw cyson i ddisgwyliadau ymddygiad, i weithdrefnau canmol a rheoli ymddygiad, cynnwys gwasanaethau a'r rhyngweithio dyddiol rhwng athrawon, staff y gegin, gofawlyr, staff gweinyddol a disgyblion.
2. Hysbysu rhieni, staff addysgu a staff cymorth sut i adnabod bwlio a sut i ymateb iddo.
3. Defnyddio holiaduron disgyblion a rhieni er mwyn gwerthuso ac ymateb i anghenion.
4. Nodi cyfleoedd sydd eisoes yn bodoli yng Nghwricwlwm yr ysgol lle mae bwlio yn faes trafod mewn pynciau fel Drama, Cymraeg a Saesneg, ABCh ac Astudiaethau Crefyddol a'u datblygu'n barhaus drwy gyfrwng cynlluniau gwaith.
5. Pennu gweithdrefnau penodol ar gyfer delio â chwynion gan rieni neu ddisgyblion, sef:
  - i. bod yr Arweinydd Cynnydd a Lles yn archwilio pob achos o fwlio a ddaw ger ei fron drwy ddisgybl, athro neu riant;
  - ii. Arweinydd Cynnydd a Lles neu weithiwr allweddol i wrando ac ystyried y gwyn o ddifrif. Diffinio'r broblem trwy ddefnydd y taflenni ysgol gyfan
  - iii. bod cofnodion yn cael eu cadw gan yr Arweinydd Cynnydd a Lles, yn cynnwys sylwadau gan y dioddefwr, y bwli a'r athrawon;
  - iv. bod cyfle am gyfarfod adferol
  - v. bod y dioddefwr yn cael ei fonitro'n gyson o dan oruchwyliaeth y tiwtor dosbarth neu'r Arweinydd Cynnydd a Lles
  - vi. Trefnu cefnogi unigolion.
  - vii. Dylid ystyried unrhyw gymorth ychwanegol i wella agweddau.OND ni chaiff y bwli barhau ag ymddygiad sy'n achosi poen i ddisgybl arall.
  - viii. Gwerthuso canlyniadau
6. Ni ddylai amgylchedd yr ysgol ffafrio'r bwli.

Mae hyn yn cynnwys:

  - i. goruchwyllo'r campws;
  - ii. datblygu campws "cymdeithasol";
  - iii. ardaloedd tŷ bach penodol;

## CADW COFNODION

Mae cadw cofnod ysgrifenedig a dyddiedig o'r camau a gymerwyd i ddatrys bwlio mewn achosion difrifol yn bwysig iawn, yn cynnwys yr holl ohebiaeth a galwadau ffôn.

Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell y dylai sefydliadau gofnodi pob achos o fwlio, yn cynnwys yn ôl math (Atodiad IV), a hysbysu Gwasanaeth Cefnogi Ymddygiad yr awdurdod lleol o'r ystadegau ar ddiwedd pob tymor (Atodiad V).

O 2012 ymlaen mae'n ofynnol i'r ysgol hysbysu'r ALI bob tymor o ystadegau achosion o fwlio yn yr ysgol.

### Cyngor i rieni

Peidiwch â wynebu'r bwli neu'r rhieni eich hun - gweithiwch gyda'r ysgol neu'r sefydliad **Beth yw'r cam cyntaf os wyf yn amau bod achos o fwlio yn mynd rhagddo?**

Cysylltwch â'r ysgol ar unwaith er mwyn siarad â'r Arweinydd Cynnydd, naill ai dros y ffôn neu yn yr ysgol.. Cofnodwch y digwyddiadau (Pwy? Beth? Ble? Pryd?) er mwyn helpu'r Arweinydd Cynnydd i ddelio â'r mater.

### Sut y gallaf helpu fy mhientyn?

Mae nifer o gamau i'w cymryd yn ogystal â chysylltu â'r ysgol. Mae'n bwysig rhoi'r hyder i'ch plentyn sylweddoli nad ef sy'n rhyfedd; mae'n bwysig bod y plentyn yn cael pob anogaeth a help i "ddweud" wrth rywun.

### Beth fydd yr ysgol yn ei wneud i helpu?

Bydd yr ysgol yn ystyried eich pryderon o ddifrif. Cynhelir cyfarfodydd rhwng unigolion, tystion a'r ddwy ochr gyda'i gilydd yn y lle cyntaf o dan amodau "dim bai". Bydd yr ysgol yn cysylltu â chartref y disgybl sy'n achosi'r drafferth. Bydd yn rhoi cyngor i'ch plentyn a chanllawiau i'r bwli. Os nad oes unrhyw newid yn agwedd y bwli, cysylltwch â'r ysgol **eto** er mwyn i ni allu delio â'r unigolyn unwaith eto a chysylltu ymhellach â'r rhieni.

### Beth os nad wyf yn fodlon ar yr holl gamau hyn?

Cysylltwch â ni; trafodwch a rhannwch eich pryderon. Gyda'n gilydd mae'n rhaid i ni ddod o hyd i ffordd ymlaen. Mae bwlio yn ei hanfod yn digwydd mewn mannau ac o dan amgylchiadau lle nad yw staff yn bresennol: nid yw'n fater hawdd, felly, i newid patrymau ymddygiad a sefydlwyd o bosibl ymhell cyn i ddisgybl gyrraedd Garth Olwg. Ond mae ein polisi a'n hymrwymiad yn gadarn: mae gan bawb yr hawl i fod yn hapus oni bai bod y person hwnnw wedi ildio ei hawl drwy agweddau gwrthgymdeithasol. Ymrwymwn yn gydwybodol i'r cyfrifoldeb o weithio gyda chi i sicrhau bod eich plentyn yn hapus yma.

### Gwefannau a rhifau ffôn defnyddiol

[www.bullying.co.uk](http://www.bullying.co.uk)

[www.kidscape.org.uk](http://www.kidscape.org.uk) Ffôn: 08451 205 204

[www.parentlineplus.org.uk](http://www.parentlineplus.org.uk) Ffôn: 0808800 2222

[www.snapcymru.org](http://www.snapcymru.org)

[www.wales.gov.uk/respectingothers](http://www.wales.gov.uk/respectingothers)

[www.antibullying.net](http://www.antibullying.net)

[www.childline.org.uk](http://www.childline.org.uk) Ffôn: 0800 1111  
[www.ace-ed.org.uk](http://www.ace-ed.org.uk)

## Atodiad IV

### Ffurflen Cofnodi Achosion o Fwlio Bob Tymor (Ysgolion Uwchradd)

Enw'r Ysgol:			
Tymor:		Blwyddyn Academaidd:	
Cyfanswm yr achosion o fwlio a gofnodwyd:			
Cyfanswm y disgyblion a oedd yn gyfrifol:			
Cyfanswm y dioddefwyr:			

#### Rhowch y wybodaeth ychwanegol ganlynol:

Manylion y disgyblion a oedd yn gyfrifol:	Gwryw	Benyw	Cyfanswm
<b>Grŵp Blwyddyn:</b>			
• Blwyddyn 7			
• Blwyddyn 8			
• Blwyddyn 9			
• Blwyddyn 10			
• Blwyddyn 11			
• Blwyddyn 12/13			
<b>Plant sy'n Derbyn Gofal</b>			
<b>Grŵp ethnig:</b>			
• Gwyn			
• Cymysg			
• Asiaidd / Asiaidd Prydeinig			
• Du / Du Prydeinig			
• Tsieineaidd / Tsieineaidd Prydeinig			
• Unrhyw gefndir ethnig arall			
• Cefndir ethnig yn anhysbys			

Manylion y dioddefwyr:	Gwryw	Benyw	Cyfanswm
<b>Grŵp Blwyddyn:</b>			
• Blwyddyn 7			
• Blwyddyn 8			
• Blwyddyn 9			
• Blwyddyn 10			
• Blwyddyn 11			
• Blwyddyn 12/13			
<b>Plant sy'n Derbyn Gofal</b>			
<b>Grŵp ethnig:</b>			
• Gwyn			
• Cymysg			
• Asiaidd / Asiaidd Prydeinig			
• Du / Du Prydeinig			

• Tsieineaidd / Tsieineaidd Prydeinig			
• Unrhyw gefndir ethnig arall			
• Cefndir ethnig yn anhysbys			

O blith yr achosion o fwlio, sawl un oedd yn:			
Emosiynol / Geiriol		Hil, Crefydd, Diwylliant	
Corfforol		Rhywiog / Rhywiol	
Seibr		Homoffobig	
Anabledd / Anghenion Arbennig		Arall	

Rhowch fanylion unrhyw gymorth ychwanegol sydd ei angen gan yr ALI a nodwyd gennych i helpu i fynd i'r afael â materion bwlio, e.e. hyfforddiant			
Llofnod y Pennaeth:		Dyddiad:	



